Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

CB6

# Canllaw i egluro rhai geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn achosion preifat sy'n ymwneud â phlant

Dyma esboniadau o rai geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn achosion preifat sy'n ymwneud â phlant. Gellir disgrifio achosion preifat sy'n ymwneud â phlant fel anghydfodau rhwng unigolion ynglŷn â phlant. Y rhieni fydd y rhain yn amlach na pheidio, ond gallant gynnwys aelod arall o'r teulu neu rywun arall.

Mae gorchmynion llys yn bwysig ac mae'n rhaid cydymffurfio â nhw. Felly mae'n bwysig eich bod yn deall yr hyn maent yn ei olygu a'r hyn mae angen i chi ei wneud (neu beidio â'i wneud). Gallech gael cyngor gan gyfreithiwr neu fargyfreithiwr a byddant yn gallu dweud wrthych a ydych chi'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol neu beidio. Os nad ydych chi'n gymwys, ac nad ydych chi'n gallu fforddio cael cynrychiolaeth neu gyngor cyfreithiol, mae asiantaethau cynghori eraill ar gael, fel Cyngor ar Bopeth. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar y wefan yn www.advicenow.org.uk/advicenow-guides/family/sorting-out-arrangements-for-your-children/

Caiff geiriau mewn **testun trwm** eu hegluro mewn rhan arall o'r canllaw. Mae'r termau yn nhrefn yr wyddor i'w gwneud yn haws i chi ddod o hyd iddynt.

## Egluro termau

### Dyrannu

Pan wneir **cais** i'r **Llys Teulu** bydd barnwr a/neu gynghorydd cyfreithiol yn gwneud penderfyniad ynghylch barnwr ar ba lefel ddylai wrando arno. Bydd hyn yn dibynnu ar ba mor anodd (cymhleth) yw'r achos.

### Ceisydd

Ceisydd yw'r enw a roddir ar yr unigolyn sy'n gwneud **cais** i'r llys. Efallai y bydd mwy nag un ceisydd, ac felly mae'n bosib y byddant yn cael eu galw'n Geisydd Cyntaf, Ail Geisydd ac yn y blaen.


©Hawlfraint y Goron 2017

## Cais

Mae'n rhaid i bob achos ddechrau gyda chais, gan ddefnyddio'r ffurflen gywir. Gallwch weld y ffurflenni yn http://hmctsformfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do ac mae canllawiau ar sut i wneud cais yn www.advicenow.org.uk. Fel arfer bydd rhaid talu ffi oni bai fod eich amgylchiadau yn eich eithrio rhag gorfod gwneud hynny. Holwch swyddfa'r llys os ydych chi'n credu y gallech fod 'wedi'ch eithrio rhag talu ffioedd'.

## Bwndeli

Mewn gwrandawiadau, mae'n bwysig bod gan y barnwr, y **partïon** ac unrhyw **dystion** yr un dogfennau, a'r rheini mewn trefn, fel bod modd cyfeirio atynt yn hwylus. Pe na bai hyn yn digwydd, byddai'n rhaid i bawb yn y gwrandawiad chwilio am ddogfennau, a byddai hynny'n gwastraffu amser. Mae'n bwysig bod bwndeli (ffeiliau modrwy neu lifer) sy'n cynnwys y dogfennau perthnasol ar gyfer y gwrandawiad hwnnw ar gael yn y gwrandawiad ei hun. Os ydych chi'n **ymgyfreithiwr drosoch eich hun** bydd y barnwr yn dweud wrthych p'un a fydd angen i chi baratoi bwndel ar gyfer gwrandawiad ai peidio.

Os bydd angen i chi baratoi bwndel, edrychwch ar Gyfarwyddyd Ymarfer 27A, www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_27a sy'n nodi'n fanwl yr hyn mae'n rhaid ei wneud.

## Cafcass

Mae Cafcass (y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd) yn sefydliad annibynnol sy'n cefnogi'r **Llys Teulu** drwy roi cyngor i'r llys am achosion. Efallai y gofynnir i Cafcass lunio adroddiad (a elwir yn **adroddiad adran 7**).fel arfer). I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r hyn mae Cafcass yn ei wneud, ewch i'r wefan www.cafcass.gov.uk

## Gorchmynion gofal a goruchwylio

Nid gorchmynion preifat yn ymwneud â phlant yw gorchmynion gofal a goruchwylio. Fodd bynnag, efallai y bydd y llys yn ymwneud ag achosion preifat weithiau os bydd plentyn yn dioddef (neu'n wynebu risg o ddioddef) niwed sylweddol. Efallai y bydd y llys yn gofyn i awdurdod lleol lunio **adroddiad adran 37** ac, o bosib, yn gwneud gorchymyn gofal dros dro ar yr un pryd.

Mae gorchymyn gofal yn rhoi **cyfrifoldeb rhiant** i awdurdod lleol, sy'n gallu defnyddio hwnnw i gyfyngu ar **gyfrifoldeb rhiant** y rhieni. O dan orchymyn gofal, gall awdurdod lleol leoli plentyn gydag aelodau o'r teulu, ffrindiau neu ofalwyr maeth er mwyn cadw'r plentyn yn ddiogel.

Mae gorchymyn goruchwylio yn golygu bod rhaid i awdurdod lleol oruchwylio'r teulu am gyfnod o hyd at 12 mis.

## Gorchymyn Trefniadau Plant

Mae gorchymyn trefniadau plant yn orchymyn (a wneir o dan adran 8 o **Ddeddf Plant 1989**) sy'n nodi gyda phwy y dylai plentyn fyw, a phryd y dylai plentyn fyw gydag unigolyn, neu dreulio amser neu gael cyswllt ag ef fel arall. Felly gall y llys wneud gorchymyn trefniadau plant yn nodi y dylai'r plentyn fyw gydag un rhiant a gweld y rhiant arall ar adegau penodol. Neu gallai'r llys ddweud y dylai'r plentyn fyw gyda'r ddau riant ar adegau penodol.

Mae Deddf Plant 1989, www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents yn cynnwys y prif ddarpariaethau sy'n ymwneud ag achosion plant. Mae'r rhan fwyaf o'r rhannau sy'n ymdrin ag achosion llys preifat yn adrannau 1 i 16.

## Gwarcheidwad Plant

Gall y llys benodi gwarcheidwad i gynrychioli plant mewn achosion preifat sy'n ymwneud â phlant. Fel arfer, bydd y gwarcheidwad yn swyddog **Cafcass** , ond gallai fod yn aelod o NYAS (y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol) neu'n weithiwr proffesiynol arall. Dim ond mewn achosion anodd iawn pan ystyrir bod angen i'r plant gael cynrychiolaeth ar wahân y bydd y llys yn penodi gwarcheidwad. Amlinellir dan ba amgylchiadau y dylai'r llys benodi gwarcheidwad yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 16A (paragraff 7.1) www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_16a

Pan fydd y llys yn penodi gwarcheidwad, mae'r plentyn yn cael ei ystyried yn **barti** yn yr achos er mwyn iddo allu cael ei gynrychioli. Bydd y gwarcheidwad yn rhoi cyfarwyddyd i gyfreithiwr weithredu ar ran y plentyn, a bydd cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer y diben hwnnw. Bydd penodiad y gwarcheidwad yn dod i ben pan ddaw'r achos i ben.

## Cyswllt

Efallai y bydd y llys yn gofyn i rywun sicrhau bod plentyn yn treulio amser gydag unigolyn neu'n cael cyswllt ag ef fel arall. Y rhieni fydd hyn yn ei olygu fel arfer, ond nid o reidrwydd. Gallai fod yn nain neu'n daid neu'n aelodau eraill o'r teulu. Ystyr cyswllt yn yr achos hwn yw ymwneud â'r plentyn mewn rhyw ffordd. Gallai hynny fod yn gyswllt uniongyrchol (gweld y plentyn neu siarad ag ef dros y ffôn neu ar y we). Neu gallai fod yn gyswllt anuniongyrchol, er enghraifft llythyrau, anrhegion, cardiau, adroddiadau ysgol a lluniau.

## Gweithgaredd Cyswllt

Gall y llys orchymyn bod parti yn cymryd rhan mewn gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio i wella trefniadau ar gyfer y plant sy'n rhan o'r achos. Ar hyn o bryd, mae'r gweithgareddau y gall y llys eu llywio yn cynnwys **Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu** (MIAM), y **Rhaglen Wybodaeth ar gyfer Rhieni wedi Gwahanu (SPIP) a Rhaglen ar gyfer Troseddwyr Trais Domestig** (DVPP). Caiff pob un o'r rhain eu hegluro mewn mwy o fanylder yn y canllaw hwn.

## Canolfan Gyswllt

Mae canolfannau cyswllt yn darparu lleoliad niwtral gyda chefnogaeth lle gellir ail-gyflwyno **cyswllt** â phlentyn neu fwrw ymlaen â hynny, yn enwedig os yw'n anodd i'r cyswllt hwnnw ddigwydd gartref neu yn y gymuned. Bydd staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yn cefnogi cyswllt (ond ddim yn goruchwylio'n uniongyrchol o reidrwydd) yn y canolfannau. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar wefan Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC) www.naccc.org.uk/

## Apwyntiad Datrys Anghydfod

Apwyntiad datrys anghydfod (DRA) yw'r enw a roddir ar wrandawiad sy'n cael ei gynnal ychydig cyn **gwrandawiad terfynol**. Erbyn i'r apwyntiad gael ei gynnal, dylai unrhyw adroddiadau a **datganiadau tyst** fod ar gael, ac felly dylai'r llys a'r **partïon** fod yn ymwybodol o'r hyn a fydd yn cael ei ddweud yn y **gwrandawiad terfynol**. Diben yr apwyntiad yw ceisio datrys neu leihau unrhyw broblemau rhwng y **partïon** yn yr achos. Weithiau bydd y llys yn trin yr apwyntiad fel **gwrandawiad terfynol**, buan, gan wrando ar rywfaint o **dystiolaeth** a gwneud penderfyniad terfynol fel bod modd dod â'r achos i ben cyn gynted â phosib. Ni fydd amser i wneud hyn bob amser, felly peidiwch â disgwyl y bydd hyn yn digwydd. Ond byddwch yn barod am y posibilrwydd.

## Trais a Cham-drin Domestig

Mae gweld neu glywed trais a cham-drin domestig yn niweidiol iawn i blant. Mae ystyr cam-drin domestig yn eang iawn. Mae'n cynnwys: cam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol yn ogystal ag ymddygiad sy'n bygwth, yn rheoli neu'n cymell.

## Rhaglen ar gyfer Troseddwyr Trais Domestig (DVPP)

Efallai y bydd Rhaglenni ar gyfer Troseddwyr Trais Domestig yn cael eu defnyddio mewn achosion pan fo trais a cham-drin domestig yn bryder. Efallai y bydd y llys yn gofyn i'r sawl sy'n cyflawni trosedd fynychu rhaglen grŵp sydd wedi'i llunio gyda'r bwriad o helpu i ddelio ag ymddygiad camdriniol a gwella perthnasoedd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.cafcass.gov.uk/about-cafcass/commissioned-services-and-contact-activities/dvpp.aspx

## Profion Cyffuriau/Alcohol

Er mwyn penderfynu a yw'n ddiogel i blentyn weld rhiant neu oedolyn arall neu fyw gydag ef, efallai y bydd rhaid i'r llys gael gwybod a yw'r unigolyn hwnnw'n defnyddio cyffuriau a/neu alcohol. Er enghraifft, gall y llys orchymyn adroddiad ar brofion gwallt neu waed gan labordy profi.

## Gorfodi

Os na fydd unigolyn yn ufuddhau i orchymyn, gall y parti arall wneud cais am orchymyn gorfodi gan y llys. Gall anufuddhau i **gamau gwaharddedig** neu **orchmynion mater penodol** arwain at gosb o garchar neu ddirwy. Yn ogystal â hynny, gall anufuddhau i **orchymyn trefniadau plant** arwain at **waith di-dâl** neu **iawndal ariannol.**Cyn y gellir gorfodi gorchymyn fel hyn, mae'n rhaid rhybuddio'r partïon y gallant gael eu carcharu neu eu dirwyo os na fyddant yn cydymffurfio, ac yn achos **gorchymyn trefniadau plant** y gallant gael eu gorfodi i wneud **gwaith di-dâl** neu dalu **iawndal ariannol**. Gelwir y rhybuddion hyn yn hysbysiadau rhybuddio neu'n rhybuddion o gosb.

Mae'n bwysicach gwneud yn siŵr bod pobl yn gwneud yr hyn mae gorchymyn llys yn ei ddweud yn hytrach na'u cosbi pan na fyddant yn gwneud hynny. Felly ni fydd y llys yn carcharu rhywun nac yn rhoi dirwy oni bai fod pethau wedi cyrraedd y pen.

## Tystiolaeth

Efallai y bydd angen i'r llys wneud penderfyniadau ynghylch materion nad yw'r **partïon** yn gallu cytuno arnynt, er enghraifft, ffeithiau y mae anghydfod yn eu cylch (p'un a yw rhywun wedi achosi niwed ai peidio, er enghraifft) neu anghydfod ynghylch yr hyn mae pawb yn ei gredu sydd orau i'r plentyn (ble dylai plentyn fyw neu fynd i'r ysgol, o bosib). Er mwyn gwneud penderfyniad, fel arfer, bydd yn rhaid i'r llys wrando ar yr hyn mae'r partïon yn ei ddweud. Weithiau bydd y **partïon** yn dymuno dod â phobl eraill (tystion) i'r llys i gefnogi'r hyn maent yn ei ddweud. Pan fydd y llys yn clywed gan **bartïon** neu eu **tystion** dywedir bod y llys yn gwrando ar dystiolaeth. Hefyd, bydd y llys yn ystyried **datganiadau tyst** ac **adroddiadau** fel tystiolaeth.

Pan fydd unigolyn yn rhoi tystiolaeth, gofynnir iddo ddechrau drwy dyngu llw ar lyfr crefyddol neu wneud addewid di-grefydd yn datgan fod yr hyn y mae ar fin ei ddweud wrth y llys yn wir. Os bydd rhywun yn dweud celwydd ar ôl tyngu llw, bydd yn cyflawni trosedd o anudoniaeth.

## Arbenigwyr/tystiolaeth arbenigol

Efallai y bydd angen i'r llys wybod am bethau lle bydd gofyn am wybodaeth arbenigol neu arbenigedd. Bryd hynny, bydd angen i'r llys gael cymorth gan arbenigwr. Mewn achos teuluol gall hynny olygu arbenigwr meddygol (**paediatregydd, seiciatrydd** neu **seicolegydd**, er enghraifft) neu gallai olygu **profion cyffuriau neu alcohol** neu brawf i gael gwybod a yw rhywun yn dad i blentyn (tadogaeth). Ni all neb ddibynnu ar arbenigwr heb gael caniatâd y llys, y mae'n rhaid gwneud cais amdano ymlaen llaw. Dim ond os yw'n hanfodol er mwyn delio â'r achos yn deg y bydd y llys yn caniatáu defnyddio arbenigwr.

I gael gwybodaeth fanylach ynghylch yr hyn y mae angen i chi ei wneud os ydych chi am ddibynnu ar arbenigwr, ewch i
www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/parts/part_25 a
www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_25a

Mae arbenigwyr yn annibynnol ac i'r llys mae eu prif ddyletswydd.

## Canfod ffeithiau

Efallai y bydd y llys yn cynnal yr hyn a elwir yn 'wrandawiad canfod ffeithiau'. Diben hyn yw gwneud penderfyniadau ynghylch ffeithiau nad yw'r **partïon** yn gallu cytuno arnynt, er enghraifft, a oes **trais neu gam-drin domestig** wedi digwydd mewn perthynas. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud y cyhuddiad ei brofi, hynny yw mae'n rhaid dangos i'r llys ei bod yn fwy tebygol ei fod wedi digwydd na pheidio (gelwir hyn hefyd yn bwysau tebygolrwydd neu'n safon prawf sifil).

## Gorchymyn Cymorth Teulu

Efallai y bydd y llys yn penderfynu bod angen help ar y partïon (a'r plant) gyda'r trefniadau mae'r llys wedi'u gorchymyn. Mewn achos o'r fath gall y llys wneud gorchymyn cymorth teulu (o dan adran 16 o **Ddeddf Plant 1989**) sy'n gwneud swyddog **Cafcass** neu weithiwr cymdeithasol (fel arfer) yn gyfrifol am helpu'r partïon i wneud i'r trefniadau weithio drwy 'gynghori, cynorthwyo a chyfeillio' yr 'unigolion a enwir yn y gorchymyn' – y rhieni a'r plentyn gan amlaf. Ni all gorchymyn cymorth teulu bara mwy na 12 mis.

## Llys Teulu

Ers mis Ebrill 2014, un Llys Teulu sy'n delio â'r holl achosion teulu, gan gynnwys yr holl achosion llys preifat. Mae'r Llys Teulu yn cynnwys ynadon (fe'u gelwir yn ynadon lleyg hefyd), barnwyr rhanbarth a barnwyr cylchdaith. Caiff achosion eu dyrannu i farnwyr ar wahanol lefel gan ddibynnu ar ba mor gymhleth ydynt.

## Rheolau Trefniadaeth Teulu

Y Rheolau Trefniadaeth Teulu, www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/rules_pd_menu, yw'r rheolau a'r cyfarwyddiadau ymarfer sy'n nodi'r hyn mae'n rhaid i'r llys a **phartïon** ei wneud wrth ddelio â threfniadau teulu. Pan sonnir am reolau a chyfarwyddiadau ymarfer yn y canllaw hwn, y Rheolau Trefniadaeth Teulu a olygir. Mae Rheol 12 a Chyfarwyddyd Ymarfer 12B yn benodol yn ymwneud ag achos llys preifat.

## Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Gallwch wneud cais os ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod mewn perygl o hyn.

## Ffeilio a chyflwyno

Weithiau mewn gorchymyn, mae'n bosib y bydd gofyn i chi 'ffeilio a chyflwyno' rhywbeth. Ystyr 'ffeilio' yw anfon deunydd at y llys ac ystyr 'cyflwyno' yw anfon deunydd at unrhyw bartïon eraill yn yr achos (ac unrhyw un arall y mae gofyn i chi anfon deunydd atynt yn ôl y gorchymyn).

## Gwrandawiad terfynol

Mewn gwrandawiad terfynol bydd y llys yn gobeithio dod â'r achos i ben drwy gael cytundeb rhwng y **partïon** neu roi gorchymyn ynglŷn ag unrhyw faterion sy'n weddill neu drefniadau plant. Mae'n bwysig bod yr achos yn dod i ben cyn gynted â phosib er mwyn i'r partïon allu symud ymlaen ac ymgymryd â'u **cyfrifoldeb rhiant** heb orfod gofyn i'r llys am atebion. Ni fydd y llys yn trefnu mwy o wrandawiadau oni bai fod hynny'n angenrheidiol ac er lles y plentyn.

## Gorchmynion Iawndal Ariannol

Os bydd rhywun yn anufuddhau i'r **gorchymyn trefniadau plant** (fel arfer drwy beidio â gwneud yn siŵr bod plentyn yn treulio amser gydag unigolyn arall neu'n cael cyswllt ag ef) gall y llys orchymyn bod y person sydd ddim wedi cydymffurfio yn talu **iawndal ariannol** i'r unigolyn arall, er enghraifft ar gyfer costau teithio a wastraffwyd neu dreuliau eraill.

## Apwyntiad Cyntaf y Gwrandawiad Datrys Anghydfod (FHDRA)

Fel arfer gelwir y gwrandawiad cyntaf a gynhelir gan y llys yn Apwyntiad Cyntaf y Gwrandawiad Datrys Anghydfod. Diben y gwrandawiad hwnnw yw ceisio datrys cymaint o broblemau â phosib. Mae nifer o achosion yn cael eu datrys yn llwyr yma. Dylai swyddog Cafcass fod wrth law i siarad â'r partïon ac i gynghori'r llys. Mae gan rai llysoedd **gyfryngwr** ar gael hefyd. Os na fydd yr achos yn cael ei ddatrys yn llwyr, bydd y llys yn nodi'r hyn sy'n gorfod digwydd er mwyn delio'n briodol ag unrhyw faterion sy'n weddill. Efallai y cyfeirir at hyn fel rheoli achos neu'r llys yn rhoi cyfarwyddiadau.

Yn y gwrandawiad hwn, mae'n bosib y bydd y llys yn gwneud gorchmynion tymor byr ynglŷn â threfniadau ar gyfer y plant (gorchmynion dros dro). Fel arall bydd y llys yn trefnu gwrandawiad arall er mwyn ystyried hynny (gwrandawiad dros dro).

## Gorchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod

Gellir disgrifio Priodas dan Orfod fel priodas lle nad yw'r ddau sy'n priodi yn gwneud hynny o'u gwirfodd ac nad ydynt wedi rhoi eu caniatâd llawn.

Gall Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod helpu os ydych yn cael eich gorfodi i briodi neu mewn priodas dan orfod yn barod.

## Niwed

Efallai y byddwch yn gweld cyfeiriadau at y gair 'niwed' yn y **rhestr wirio lles** ac mewn perthynas â **thrais a cham-drin domestig**. Mae ei ystyr yn eang iawn mewn achosion sy'n ymwneud â phlant. Mae'n golygu trin plentyn yn wael neu amharu ar ei iechyd neu ei ddatblygiad. Mae hynny'n cynnwys gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei drin yn wael (gweld neu glywed cam-drin domestig, er enghraifft). Mae 'iechyd' yn golygu iechyd corfforol neu feddyliol. Mae 'datblygiad' yn golygu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol. Mae 'trin yn wael' yn cynnwys cam-drin rhywiol a thrin rhywun yn wael mewn ffordd sydd ddim yn gorfforol.

## Dehonglwyr/Cyfieithwyr

Os nad yw **parti** neu **dyst** yn gallu deall Saesneg llafar neu os oes ganddo anawsterau clywed, efallai y bydd angen iddo gael dehonglydd/cyfieithydd mewn gwrandawiadau.

Os oes gennych chi anhawster clywed sy'n golygu na fyddech yn gallu dilyn y gwrandawiad heb gymorth dehonglydd, dylech roi gwybod i'r llys a bydd y gwasanaeth yn cael ei drefnu ar eich cyfer.

Byddwch yn cael dehonglydd/cyfieithydd os yw'ch achos yn ymwneud â phlant, trais domestig neu **briodas dan orfod** neu **orchymyn amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu benywod**. Mae'n dal yn bosib y bydd modd i chi gael dehonglydd/cyfieithydd mewn achosion eraill ond dim ond os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- dydych chi ddim yn gallu fforddio talu am un eich hun
- dydych chi ddim yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol
- does gennych chi ddim aelod o'r teulu na ffrind y mae'r barnwr yn dweud ei bod yn iawn iddo wneud hyn

Ewch i [www.justice.gov.uk/courts/interpreter-guidance](www.justice.gov.uk/courts/interpreter-guidance) i gael rhagor o wybodaeth.

## Cynrychiolydd lleyg

Gellir disgrifio cynrychiolydd lleyg fel rhywun nad yw'n gyfreithiwr cymwys ond mae'r llys yn caniatáu iddo siarad ar ran **parti** yn yr achos. Fel arfer ni fydd y llys yn caniatáu cynrychiolydd lleyg gan nad yw'n rhwym wrth god ymarfer nac yswiriant proffesiynol yn yr un modd â chyfreithwyr cymwys. Wedi dweud hynny, efallai y bydd y llys yn ei ystyried os bydd yn helpu i ddatrys yr achos yn deg. Gweler hefyd **Ffrind McKenzie**.

## Cymorth Cyfreithiol (Arian Cyhoeddus)

Ers mis Ebrill 2013 mae cymorth cyfreithiol (neu arian cyhoeddus) wedi bod ar gael ar gyfer achosion preifat sy'n ymwneud â phlant i dalu am gynrychiolaeth gyfreithiol, ond dim ond mewn rhai amgylchiadau. Fel arfer dim ond i barti sydd wedi dioddef trais neu gam-drin domestig y rhoddir cymorth cyfreithiol. Efallai y bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (yr asiantaeth sy'n gyfrifol am gymorth cyfreithiol) yn rhoi Cyllid Achos Eithriadol mewn achosion eithriadol iawn. Gallwch weld a fyddech chi'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol drwy fynd i wefan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn www.gov.uk/check-legal-aid

## Cyfaill cyfreitha

Bydd y llys yn cymryd fod **partïon** yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain mewn perthynas â'r achos. Os na fydd **parti** yn gallu gwneud penderfyniad drosto ei hun o ganlyniad i nam ar y meddwl neu'r ymennydd, efallai y bydd y llys yn penderfynu bod angen cymorth cyfaill cyfreitha arno. Gall hwn fod yn ffrind neu'n berthynas, gan gymryd na fydd eu buddiannau yn gwrthdaro â rhai'r **parti** cdan sylw. Fel arall, efallai y bydd angen gofyn i'r **Cyfreithiwr Swyddogol** weithredu fel cyfaill cyfreitha. Os yw'r llys wedi penderfynu bod angen cyfaill cyfreitha ar **barti**, ni all yr achos fynd rhagddo heb benodi un.

Mae'r darpariaethau perthnasol i'w gweld yn:

- adrannau 1-3 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents)
- Rheol 15 (www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/parts/part_15) a
- Chyfarwyddyd Ymarfer 15A (www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_15a).

Gelwir **partïon** y mae angen cyfaill cyfreitha arnynt yn 'bartïon a warchodir'.

Bydd angen cyfaill cyfreitha ar blentyn sy'n gwneud cais ei hun i'r llys hefyd, oni bai fod y plentyn yn ddigon hen ac yn deall digon i ddelio â'r achos heb gyfaill cyfreitha.

Weithiau mae pobl yn credu mai'r enw a roddir ar unigolyn sy'n eu cefnogi yn y llys yw cyfaill cyfreitha, ond nid yw hynny'n gwbl gywir. Mae'r unigolyn hwnnw'n fwy tebygol o fod yn **Ffrind McKenzie**.

## Ymgyfreithiwr drosto'i hun

**Parti** yn yr achos sydd ddim yn cael ei gynrychioli gan gyfreithiwr yw ymgyfreithiwr drosto'i hun. Nid oes rheolau gwahanol ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ac maent yn rhwym i'r un gweithdrefnau â phartïon sy'n cael eu cynrychioli. Mae dyletswydd ar y llys i sicrhau bod y partïon mewn achosion yn gyfartal. Bydd y llys yn ceisio helpu ymgyfreithwyr drostynt eu hunain er mwyn sicrhau bod achosion yn deg. Fodd bynnag, ni all y llys roi cyngor i **barti**.

## Ffrind McKenzie

Unigolyn sy'n cefnogi **parti** mewn achos yw Ffrind McKenzie. Ceir Ffrindiau McKenzie proffesiynol sy'n gallu codi ffi am eu gwasanaeth. Neu gall Ffrind McKenzie fod yn berthynas, yn ffrind neu'n gefnogwr arall. Y naill ffordd neu'r llall, mae cyfyngiadau ar yr hyn y caiff Ffrind McKenzie ei wneud. Ni chaiff Ffrind McKenzie siarad ar eich rhan na holi **tystion** mewn gwrandawiad, ac ni all gynnal yr achos ar eich rhan. Gall Ffrind McKenzie ddarparu cefnogaeth foesol, cymryd nodiadau, helpu â phapurau'r achos a rhoi cyngor yn dawel.

## Cyfryngu/Cyfryngwr

Cyfryngu yw'r dull a ddefnyddir gan gyfryngwyr er mwyn **datrys anghydfod heb y llys**. Mae'n hollbwysig bod rhieni sydd wedi gwahanu ac eraill yn ceisio datrys trefniadau ar gyfer plant drostynt eu hunain. Mae defnyddio cyfryngwr i gynorthwyo â'r broses yn llawer gwell na dod i'r llys, a ddylai fod yn ddewis olaf. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyfryngu ar wefan y Cyngor Cyfryngu Teuluol [www.familymediationcouncil.org.uk/family-mediation](www.familymediationcouncil.org.uk/family-mediation)

## Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM)

Cyn y byddwch yn gallu gwneud cais i'r llys am orchymyn mewn achosion teulu, mae'n rhaid i chi fynd i Gyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) gyda **chyfryngwr**. teulu. Diben y cyfarfod yw rhoi gwybodaeth am gyfryngu i chi a gweld a fyddai'r achos yn addas ar gyfer cyfryngu. Disgwylir i'r **parti** arall mewn **cais** (yr **atebydd**) ddod i'r cyfarfod hefyd ond nid yw hynny'n angenrheidiol (er mae'n bosib y bydd y llys yn gorchymyn hynny yn nes ymlaen).

Mae achosion lle nad yw'r gofyniad i fynd i gyfarfod MIAM yn berthnasol, er enghraifft, achosion sy'n ymwneud â **thrais domestig** neu **achosion brys**, ond bydd angen i chi holi'n ofalus a yw hynny'n berthnasol i chi ai peidio. Gweithredir y rheolau yn llym.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd MIAM ar wefan y Cyngor Cyfryngu Teuluol [www.familymediationcouncil.org.uk/family-mediation/assessment-meeting-miam/](www.familymediationcouncil.org.uk/family-mediation/assessment-meeting-miam/) le gallwch gael manylion **cyfryngwyr** teulu sy'n gymwys i gynnal cyfarfodydd MIAM yn eich ardal hefyd. Dyma ddolen i fideo byr am gyfryngu, [www.familymediationcouncil.org.uk/family-mediation/](www.familymediationcouncil.org.uk/family-mediation/)

## Gorchmynion monitro

Efallai y bydd y llys yn gofyn i **Cafcass** gadw llygad ar (monitro) trefniadau plant sydd wedi cael eu gorchymyn gan y llys, yn enwedig ar ddiwedd achos anodd. Bydd **Cafcass** yn adrodd yn ôl i'r llys os na chedwir at y gorchymyn.

## Egwyddor dim gorchymyn

Ni ddylai'r llysoedd orfodi canlyniadau sy'n ymwneud â phlant ar oedolion os yw'r oedolion yn gallu datrys y mater eu hunain. O ganlyniad i hynny, fel man cychwyn, ni fydd y llys yn gwneud gorchymyn oni bai fod hynny'n gwella sefyllfa'r plentyn. Os oes dadl anodd ynglŷn â threfniadau plentyn, a bod hyn wedi arwain at benderfyniad gan y llys, efallai ei bod yn well i'r plentyn bod y llys yn gwneud gorchymyn i sicrhau bod yr hyn y penderfynir ei wneud yn digwydd, cyn belled ag y bo hynny'n bosib. Ond ni fydd angen gwneud hynny'n aml gan fod nodi'r hyn mae'r **partïon** wedi cytuno arno yn ddigon mewn nifer fawr o achosion.

## Datrys anghydfod heb y llys

Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw fath o ddatrys problemau oedolion sy'n ymwneud â phlant sy'n digwydd y tu allan i'r llys (**cyfryngu** gan amlaf, ond gall fod yn ymgynghori neu'n therapi neu'n fath arall o gymorth).

## Cyfreithiwr Swyddogol

Os bydd angen i **barti** mewn achos gael **cyfaill cyfreitha**, ac nad oes unrhyw un arall ar gael, efallai y bydd gofyn i'r Cyfreithiwr Swyddogol fod yn **gyfaill cyfreitha**. I gael rhagor o wybodaeth am y Cyfreithiwr Swyddogol ewch i'r wefan www.gov.uk/government/organisations/official-solicitor-and-public-trustee

## Paediatregydd

Meddyg sy'n arbenigo mewn iechyd a datblygiad plant yw paediatregydd. Efallai y bydd gofyn i baediatregydd helpu'r llys drwy ddarparu adroddiad neu gyflwyno **tystiolaeth arbenigol**.

## Cyfrifoldeb rhiant

Yn gyfreithiol, ystyr cyfrifoldeb rhiant yw'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau a'r awdurdod sydd gan riant plentyn. Fodd bynnag, y cyfrifoldeb yw'r agwedd bwysicaf ar gyfrifoldeb rhiant yn hytrach na'r hawliau.

Mamau sydd â'r cyfrifoldeb rhiant bob amser. Bydd tadau yn ei gael yn awtomatig os yw eu henw ar dystysgrif geni'r plentyn (ers mis Rhagfyr 2003). Gallant ei gael hefyd drwy gytundeb â'r fam neu orchymyn gan y llys. Mae rhai **gorchmynion trefniadau plentyn** yn arwain at rieni neu unigolion eraill yn cael cyfrifoldeb rhiant tra bo'r gorchymyn yn weithredol.

Mae cyfrifoldeb rhiant yn bwysig iawn. Rhan o'r cyfrifoldeb hwnnw yw bod rhieni sydd wedi gwahanu yn gwneud yn siŵr eu bod yn gallu gwneud trefniadau boddhaol ar gyfer eu plant sydd er lles eu plant. Yn syml, y rôl o fagu plant ydyw.

## Parti

Defnyddir y gair parti, neu bartïon, yn y canllaw hwn a byddwch yn dod ar ei draws mewn gorchmynion. Ystyr hyn yw'r sawl sy'n gwneud cais i'r llys (y **ceisydd**) a'r sawl y mae hawl ganddo i'r llys wrando ar ei ymateb (yr **atebydd**). Weithiau bydd plentyn yn barti mewn achos, un ai ar ei ben ei hun os yw'r plentyn yn ddigon hen ac yn deall digon, neu oherwydd bod y llys wedi penodi **gwarcheidwad plentyn**.

## Rhybudd o gosb – gweler Gorfodi

## Caniatâd i wneud cais

Mae gan rai pobl yr hawl i wneud cais am orchmynion sy'n ymwneud â phlant – rhieni yn amlwg, a rhai pobl y mae plentyn wedi byw gyda nhw am gyfnod penodol. Mae'n rhaid i eraill gael caniatâd y llys cyn gwneud cais am orchymyn. Ymdrinnir â hyn yn adran 10 o Ddeddf Plant 1989, www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/section/10

## Gwasanaeth Personol

Weithiau bydd y rheolau neu'r llys yn dweud bod rhaid i ddogfennau'r achos gael eu 'cyflwyno'n uniongyrchol'. Bydd hyn yn golygu bod rhaid iddynt gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r unigolyn mae'n rhaid eu cyflwyno iddo, yn hytrach na'u hanfon drwy'r post. Fel arfer mae'n well os nad ydych chi'n cyflwyno'r dogfennau'n uniongyrchol eich hun. Gallwch ofyn i Gyflwynydd Proses wneud hynny i chi. Byddant yn gwneud datganiad yn cadarnhau a ydynt wedi llwyddo i gyflwyno'r dogfennau yn uniongyrchol ai peidio. Fel arall, mae'n bosib y bydd y llys yn gofyn i Feili'r Llys ddelio â'r mater.

## Gorchymyn Camau Gwaharddedig

Efallai y bydd y llys yn gwneud gorchymyn sy'n gwahardd unigolyn rhag gwneud rhywbeth mewn perthynas â phlentyn, er enghraifft, tynnu plentyn oddi wrth riant neu o ysgol, neu newid enw plentyn. Gelwir hyn yn orchymyn camau gwaharddedig. Gall methu â chydymffurfio arwain at ddirwy neu garchar. Gweler hefyd **gorchmynion mater penodol**.

## Seiciatrydd

Mae seiciatrydd yn arbenigo mewn dadansoddi a thrin anhwylderau a salwch meddwl. Mae rhai seiciatryddion yn delio ag oedolion, ac eraill yn delio â phlant a phobl ifanc. Efallai y bydd gofyn i seiciatrydd helpu'r llys drwy gyflwyno adroddiad neu roi **tystiolaeth arbenigol** ynglŷn ag unrhyw risgiau a salwch meddwl a allai effeithio ar blant.

## Seicolegydd

Mae seicolegydd yn arbenigo mewn prosesau meddyliol ac ymddygiad pobl. Efallai y bydd gofyn i seicolegydd helpu'r llys drwy gyflwyno adroddiad neu roi **tystiolaeth arbenigol** ynglŷn ag ymddygiad partïon a allai effeithio ar faterion mae'n rhaid i'r llys wneud penderfyniadau yn eu cylch.

## Atebydd

Pan fydd rhywun yn gwneud cais i'r llys, mae gan rai pobl eraill hawl i gael gwybod am y cais a bod yn barti er mwyn iddynt allu ymateb. Gelwir y bobl hyn yn atebwyr. Bydd pawb sydd â **chyfrifoldeb rhiant** yn atebydd yn awtomatig. Efallai y bydd y llys yn penderfynu y dylai pobl eraill sy'n pryderu ynghylch y plentyn fod yn atebwyr hefyd er mwyn i'r llys glywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

## Hawl i wneud cais

Os oes gwrandawiad wedi cael ei gynnal heb i chi fod yn ymwybodol ohono (er enghraifft oherwydd mater brys neu risg o **niwed**) mae gennych hawl i ofyn i'r llys ailystyried unrhyw orchymyn a wnaed yn y gwrandawiad hwnnw (gelwir hyn yn hawl i wneud cais). Bydd rhaid i chi weithredu'n ddi-oed a gofyn yn ysgrifenedig i'r llys ailystyried y gorchymyn (y barnwr neu'r ynad a wnaeth y gorchymyn fel arfer). Efallai bydd y llys yn trefnu gwrandawiad arall er mwyn gwneud hynny. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y parti arall yn yr achos eich bod wedi gofyn i'r llys ailystyried y gorchymyn.

Gweler hefyd **heb rybudd**.

## Diogelu

Ar ddechrau'r achos bydd **Cafcass** yn gofyn i'r heddlu ac unrhyw awdurdodau lleol yn yr ardaloedd mae'r partïon yn byw, neu maent wedi byw ynddynt yn ddiweddar, ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ganddynt. Gall hyn gynnwys unrhyw gofnodion troseddol sydd gan yr heddlu neu'r gwasanaeth amddiffyn plant, neu wybodaeth arall sydd gan awdurdod lleol. Ni ddylai'r llys wneud gorchymyn sy'n ymwneud â phlant heb wybodaeth am ddiogelwch oni bai fod yr achos yn un brys lle mae gofyn am orchymyn ar unwaith.

## Adroddiad adran 7

Efallai y bydd y llys yn gofyn i **Cafcass** neu awdurdod lleol wneud adroddiad ar gyfer y llys ynglŷn ag amgylchiadau plentyn a gwneud argymhelliad i'r llys ynghylch y mathau o orchmynion y dylai eu gwneud. Caiff yr adroddiad hwn ei baratoi o dan adran **7 Deddf Plant 1989** a dylai ystyried y **rhestr wirio lles**.

## Adroddiad adran 37

Efallai y bydd y llys yn credu bod plentyn yn wynebu risg o **niwed** ac felly bydd yr awdurdod lleol yn ystyried gwneud cais am **orchymyn gofal neu oruchwylio**. O dan adran 37 Deddf Plant 1989, gall y llys ofyn i awdurdod lleol ddatgan a yw'n bwriadu gwneud cais am **orchymyn gofal neu oruchwylio**. Ar yr un pryd, gall y llys wneud **gorchymyn gofal** dros dro (tymor byr).

Os nad yw'r awdurdod lleol yn bwriadu gwneud cais am **orchymyn gofal neu oruchwylio** dylai ddweud wrth y llys pa gefnogaeth (os o gwbl) mae'n bwriadu ei rhoi i'r teulu dan sylw.

## Rhaglen Wybodaeth ar gyfer Rhieni wedi Gwahanu (SPIP)

Mae Rhaglenni Gwybodaeth ar gyfer Rhieni wedi Gwahanu wedi'u llunio er mwyn helpu rhieni i ddysgu mwy am effaith gwahanu ar eu plant. Math o weithgaredd a orchmynnir gan y llys ydyw, er bydd y rhaglenni SPIP ar gael cyn i achosion ddechrau mewn rhai ardaloedd (gorau po gyntaf y bydd rhieni'n ymgymryd â rhaglen o'r fath ar ôl gwahanu).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Cafcass, www.cafcass.gov.uk/about-cafcass/commissioned-services-and-contact-activities/spip.aspx. Mae fideo byr ar raglenni SPIP ar YouTube hefyd.

## Hysbysiad byr

Weithiau bydd **cais** i'r llys yn cael ei ystyried yn un mae brys mawr amdano ac ni fydd modd rhoi'r cyfnod rhybudd arferol i'r **atebydd**. Serch hynny, bydd y llys eisiau rhoi cyfle i'r **atebydd** gael ei glywed ac efallai y bydd yn lleihau'r rhybudd arferol er mwyn gallu gwneud hynny. Gelwir hyn yn hysbysiad byr.

## Gwarcheidwad Arbennig

Gall y llys benodi gwarcheidwad neu warcheidwaid arbennig ar gyfer plant. Mae gan warcheidwaid arbennig **gyfrifoldeb rhiant** dros y plentyn hwnnw ac mae modd iddynt ei ddefnyddio i ddiddymu **cyfrifoldeb rhiant** unrhyw un arall, gan gynnwys y rhieni. Felly bydd gwarcheidwad arbennig yn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â magwraeth plentyn hyd yn oed os yw rhiant yn anghytuno (er gallai'r rhiant hwnnw wneud cais i'r llys benderfynu ar yr hyn sydd orau i'r plentyn).

Mae gan rai pobl hawl i wneud cais am orchymyn gwarcheidwaeth arbennig, bydd angen **caniatâd i wneud cais** ar eraill. Ond cyn hynny mae'n rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o dri mis i'r awdurdod lleol yn yr ardal mae'r plentyn yn byw ynddi er mwyn iddynt allu llunio adroddiad manwl ar gyfer y llys ynglŷn â pha mor addas yw'r **ceisydd/ceiswyr**.

## Gorchymyn mater penodol

Mae gorchymyn mater penodol yn nodi'r hyn mae'n rhaid ei wneud mewn perthynas â phlentyn, er enghraifft pa ysgol ddylai'r plentyn fynd iddi neu ba gyfenw fydd yn ei ddefnyddio. Os yw gorchymyn camau gwaharddedig yn dweud beth na all pobl ei wneud mewn perthynas â phlentyn, mae gorchymyn mater penodol yn dweud beth mae'n rhaid iddynt ei wneud.

## Datganiadau – gweler Tystion/Datganiadau Tyst

## Cyswllt â chefnogaeth/dan oruchwyliaeth

Weithiau bydd angen cefnogi neu oruchwylio cyswllt rhwng plentyn a pherson arall. Ystyr goruchwylio yw cadw llygad fanwl ar y cyswllt a bod yn bresennol bob amser. Gall y goruchwyliwr fod yn rhywun mae'r partïon yn ei adnabod (perthynas neu ffrind maent yn ymddiried ynddo, er enghraifft) neu'n berson proffesiynol mewn canolfan sy'n darparu **cyswllt** dan oruchwyliaeth. Dim ond os yw'n angenrheidiol er mwyn gwarchod lles y plentyn fydd y llys yn gorchymyn bod cyswllt yn cael ei oruchwylio.

Does dim angen goruchwyliaeth gyson ar gyswllt â chefnogaeth. Fel arfer caiff ei ddarparu mewn **canolfan gyswllt** fel ffordd o ailgyflwyno cyswllt mewn cyfnod byr.

## Gorchymyn gwaith di-dâl

Os profir nad yw parti wedi gwneud yr hyn mae gofyn iddo ei wneud mewn **gorchymyn trefniadau plentyn** gall y llys orchymyn ei fod yn gwneud gwaith di-dâl am gyfnod rhwng 40 a 200 awr o hyd. Gelwir hyn hefyd yn **orchymyn gorfodi**. Bydd y llys yn gofyn i Cafcass ddarparu gwybodaeth ynghylch a yw'n briodol i wneud gorchymyn gwaith di-dâl (gan gynnwys y gwaith o'r fath sydd ar gael yn lleol).

## Dwyn Plant Ymaith yn Anghyfreithlon/Cipio Plant

Mae dwyn plentyn ymaith o'r DU heb ganiatâd pawb sydd â **chyfrifoldeb rhiant** neu ganiatâd y llys yn drosedd difrifol. Yn y rhan fwyaf o wledydd y caiff plentyn ei ddwyn ymaith iddynt yn anghyfreithlon, byddant yn gorchymyn bod y plentyn yn dychwelyd ar unwaith. Os ydych chi'n pryderu bod plentyn wedi cael ei ddwyn ymaith yn anghyfreithlon, dylech geisio cyngor gan gyfreithiwr ar frys. Dyma ddolen i ragor o wybodaeth am Herwgydio Plentyn,
www.gov.uk/government/publications/international-parental-child-abduction

## Achosion brys

Weithiau bydd **ceisiadau** yn cael eu gwneud i'r llys heb fod y ceisydd wedi mynd i gyfarfod **MIAM** yn gyntaf. Efallai y gwneir cais am wrandawiad brys hefyd. Wrth gwrs, mae unrhyw un sy'n gwneud cais i'r llys yn debygol o deimlo bod eu cais yn un brys ond mae'r rheolau ynglŷn ag ystyr brys yn glir. Dim ond dan yr amgylchiadau canlynol caiff achos ei ystyried yn un brys:

- os oes perygl i fywyd, rhyddid neu ddiogelwch corfforol y ceisydd neu ei deulu neu ei gartref
- neu y byddai oedi yn achosi
- risg o niwed i blentyn
- risg o ddwyn plentyn ymaith o'r DU yn anghyfreithlon
- risg sylweddol o gamweinyddiad cyfiawnder
- caledi afresymol i'r ceisydd
- problemau na ellir eu datrys wrth drin yr achos (colli tystiolaeth arwyddocaol, er enghraifft).

## Hysbysiad rhybuddio – gweler Gorfodi

## Lles y plentyn

Prif bryder y llys wrth ddelio ag achos sy'n ymwneud â phlentyn yw lles y plentyn (gelwir hyn hefyd yn 'yr hyn sydd orau i'r plentyn' weithiau). Bydd y llys yn ystyried y **rhestr wirio lles**.

Hefyd, pan fydd oedolion (gan gynnwys llysoedd) yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phlant, mae'n bwysig eu bod yn gwrando ar yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud (llais y plentyn). Bydd angen i'r llys ystyried sut bydd y plentyn yn cael ei gynnwys mewn achos. Bydd llawer o hyn yn dibynnu ar oedran a dealltwriaeth y plentyn, wrth gwrs. Efallai y bydd yn ddigon i blentyn gael ei weld gan swyddog **Cafcass**, a all ddweud wrth y llys beth yw dymuniadau a theimladau'r plentyn. Neu efallai y bydd y plentyn yn dymuno cymryd rhan fwy uniongyrchol drwy ysgrifennu llythyr neu weld y barnwr, er enghraifft. Weithiau bydd y llys am i'r plentyn gael ei gynrychioli ar wahân gan **warcheidwad plant**.

Bydd y llys hefyd yn ystyried y gallai oedi wrth ddelio â'r cais fod yn niweidiol i'r plentyn dan sylw. Bydd y llys yn trefnu amserlen er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen.

## Rhestr wirio lles

Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r hyn sydd orau i blentyn, bydd y llys yn ystyried y rhestr wirio lles yn adran 1(3) o **Ddeddf Plant 1989**:

- dymuniadau a theimladau canfyddadwy'r plentyn o ystyried ei oedran a'i lefel o ddealltwriaeth
- ei anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol
- effaith debygol newid mewn amgylchiadau arno
- ei oedran, ei ryw, ei gefndir ac unrhyw nodweddion perthnasol eraill

unrhyw **niwed** mae'n ei ddioddef neu mewn risg o'i ddioddef

- pa mor gymwys yw ei rieni/yr oedolion dan sylw o ddiwallu ei anghenion
- y pwerau sydd gan y llys.

## Tystion/Datganiadau Tyst

Ystyr tyst yw rhywun sy'n rhoi tystiolaeth i'r llys. Mae **parti** yn golygu tyst pan fydd yn rhoi tystiolaeth. Gall parti alw ar rywun arall i roi **tystiolaeth** ar ei ran a byddant yn dystion.

Mae'n rhaid i rywun sydd am roi **tystiolaeth** i'r llys wneud datganiad ysgrifenedig o'r hyn maent yn bwriadu ei ddweud. Bydd y gorchymyn llys yn nodi'r hyn sy'n rhaid ei wneud. Efallai y bydd y partïon eu hunain yn ystyried y templed datganiad tyst sydd ar gael ar-lein yn ddefnyddiol http://hmctsformfinder.justice.gov.uk/courtfinder/forms/c120-eng.pdf

## Heb rybudd

Fel arfer, ni fydd y llys yn gwneud unrhyw benderfyniadau heb roi cyfle i'r ddwy ochr ddweud eu dweud. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd y llys yn barod i wneud gorchymyn heb rybudd i un **parti**, ond dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- byddai rhoi rhybudd yn galluogi'r **parti** arall i gymryd camau er mwyn mynd yn groes i bwrpas y gorchymyn, neu
- bod brys eithriadol, hynny yw nad oes amser wedi bod i roi rhybudd hyd yn oed dros y ffôn, drwy neges destun neu e-bost, neu
- os rhoddir gorchymyn, bydd yn rhoi'r **ceisydd** neu'r plentyn mewn risg o **niwed** corfforol neu emosiynol diangen.

Os bydd y llys yn gwneud gorchymyn heb rybudd, bydd gwrandawiad pellach yn cael ei drefnu er mwyn rhoi cyfle i'r **parti** arall gael ei wrando.

Hefyd, os na chawsoch rybudd am wrandawiad gallwch ofyn i'r llys ailystyried unrhyw orchymyn a wnaed – **gweler hawl i wneud cais**.